Papur 3

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

—

Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

5 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Deiseb P-05-1056, Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru

Diolch am eich llythyr ynghylch y ddeiseb hon. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cytuno y byddwn yn cynnal ymchwiliad i ail gartrefi. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad yn ein cyfarfod ar 3 Tachwedd:

- Edrych yn fanwl ar yr argymhellion a wnaed gan Dr Simon Brooks yn ei adroddiad, 'Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru', ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion hynny.
- Ystyried yr amcanion polisi a gwerthuso sail y dystiolaeth ar gyfer newid polisi yn y maes hwn a nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a data.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn barn sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y maes hwn wedi'i lansio heddiw, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 14 Ionawr 2022. O ystyried perthnasedd yr ymgynghoriad i'r ddeiseb hon, gofynnwn i chi roi gwybod i'r deisebydd am yr ymgynghoriad a sut i gyfrannu ato. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Yn gywir,

John

Papur 3

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.